Darllenwch y darn canlynol
Read the following passage

Samantha Jones ydw i. Dw i'n byw yn Wrecsam a dw i'n un deg tri oed. Dw i'n mynd i Ysgol Morgan Llwyd, ysgol grêt! Es i i Ysgol Gynradd Plas Coch. Dw i'n byw yn Borras gyda Mam a Dad. Mae gen i dau frawd o'r enw Matt a Dan ac un chwaer o'r enw Chloe. Mae Matt yn wyth oed, mae Dan yn un deg pump ac mae Chloe yn chwech oed. Dw i'n dal ac mae gen i wallt du a llygaid glas.

Fy hoff fwyd ydy byrgyr a sglodion o Burger King achos mae'n blasus iawn. Dw i ddim yn hoffi tomatos achos mae'n ofnadwy – ych a fi!! Hefyd, dw i'n hoffi siocled – drwg i chi ond neis iawn.

Yn yr ysgol, dw i'n mwynhau Saesneg a Hanes achos maen nhw'n bril ond dw i'n casau gwyddoniaeth ac addysg grefyddol achos maen nhw'n ddiflas iawn.

Yn fy amser hamdden, dw i'n mwynhau chwaraeon. Fy hoff chwaraeon ydy nofio, beicio a chwarae pêl-droed achos maen nhw'n hwyl.

A dyma fi, Sam Jones, un deg tri oed o Wrecsam – merch hapus iawn!

DYSGA/LEARN

O'r enw - Called
(g)wallt du - black hair
Llygaid glas - blue eyes

Ffeindiwch y Gymraeg am……..

Find the Welsh for……

I went to…

I've got…

I live with…

My favourite food is…

I don't like…

Also

Bad for you but very nice

I enjoy

I hate

But

Tasg

Tasg 1:

Are the statements true or false?

	Cywir (True)	Anghytuno (False)
Mae Sam yn un deg pump oed		
Mae Sam yn mynd i Ysgol Rhoesnensi		
Mae ganddi hi wallt du a llygaid glas		
Ei hoff fwyd ydy MacDonalds		
Mae Sam yn casau tamatos		
Mae hi'n mwynhau Saesneg a Hanes		
Mae hi'n hoffi chwarae rygbi		
Mae hi'n byw yn Wrecsam		

Tasg 2:

How are you different and Similar to Sam?

EE Dwi'n debyg i Sam achos dwi'n hoffi byrgyr a sglodion

(I am similar to Sam because I like burger and chips)

Dw i'n debyg i Sam achos… (I am similar to Sam because…)

_____

_____

Dw i ddim yn debyg i Sam achos…(I am different to Sam because…)

_____

_____